

DIWEDDARIAD CYNLLUN SGILIAU A CHYFLOGAETH

2024



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Canolbarth Cymru
Mid Wales
Regional Skills Partnership



Rhagair

Ers lansio Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022-2025 yn 2023, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi cael blwyddyn adeiladol, ac wedi adeiladu ar ei sylfeini, gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a chyflawni ledled Powys a Cheredigion.

Rydym ni bellach mewn cyfnod o fyfyrto. Mae ein gwaith gyda'r grwpiau clwstwr a arweinir gan fusnesau newydd wedi dylanwadu'n sylweddol ar yr agenda sgiliau, gan roi darlun cliriach i ni o'r hyn sy'n digwydd yn ein rhanbarth. Mae ein gwybodaeth am y farchnad lafur a'r data ansoddol hwn wedi llywio newidiadau sylweddol yn economi Canolbarth Cymru, gan nodi rhagfynegiadau twf uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae Diweddariad Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2024 yn adlewyrchu'r rhagfynegiadau hyn.

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn chwarae rhan hanfodol wrth nodi a dadansoddi anghenion yr economi leol, busnesau, ac anghenion ehangach cymdeithas i fynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau.

Mae'n bwysicach nag erioed bod y ddarpariaeth sgiliau gywir ar gael yn y lle iawn ar yr adeg iawn i ddiwallu anghenion ein cyflogwyr yng Nghanolbarth Cymru. Drwy gysoni â'n rhwydwaith o ysgolion, colegau, prifysgolion, prentisiaethau, a dysgu seiliedig ar waith, byddwn yn cyflawni hyn.

Mae'n hanfodol bod y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r DU i gefnogi'r agenda sgiliau yng Nghanolbarth Cymru.



Emma Thomas

Cadeirydd, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Datganiad yr Arweinwyr

Rydym yn falch iawn o weld, o dan arweinyddiaeth Emma, fod gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn creu effaith ar draws Canolbarth Cymru. Mae sgiliau wedi codi ar agenda economaidd y rhanbarth ac maent yn flaenoriaeth mewn trafodaethau yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Ein gweledigaeth yw sicrhau bod unrhyw fenter a thwf economaidd newydd yn y rhanbarth yn cael eu cefnogi gan y ddarpariaeth sgiliau sydd ei hangen i ganiatáu i'r busnesau a phoblogaeth Canolbarth Cymru ffynnu.



Y Cyngorydd
Bryan Davies
Arweinydd,
Cyngor Sir Ceredigion



Y Cyngorydd
James Gibson-Watt
Arweinydd,
Cyngor Sir Powys

Am fwy o wybodaeth:

E: Midwalesrsp@powys.gov.uk

www.midwalesrsp.wales



Beth yw Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru?

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn un o bedair partneriaeth sgiliau ranbarthol yng Nghymru sy'n gweithio i sbarduno buddsoddiad mewn sgiliau trwy ddatblygu ymatebion yn seiliedig ar anghenion lleol a rhanbarthol.

Fel rhan o dîm Tyfu Canolbarth Cymru, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cefnogi datblygiad prosiectau'r Cynllun Twf i sicrhau bod busnesau'n manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a sgiliau ac i nodi lle bydd bylchau sgiliau posibl yn dal cynnydd yn ôl. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn chwarae rhan annatod wrth gynllunio i sicrhau bod staff medrus addas ar gael yn y rhanbarth unwaith y bydd prosiectau'n barod i'w gweithredu.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn goruchwyllo'r holl weithgarwch ac yn sicrhau bod y gwaith yn canolbwyntio ar gyflawni ein hamcanion.

Amcanion:


- Gweithredu fel partneriaeth sy'n gweithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid i nodi anghenion sgiliau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar draws y rhanbarth.
- Pontio'r bwlch rhwng addysg, sgiliau ac adfywio i greu economi gref a bywiog wedi'i danategu gan arloesedd, twf a gweithlu galluog.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn anelu at gyflawni pedwar maes allweddol:

- Cynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur i lywio blaenoriaethau presennol ac yn y dyfodol.
- Adolygu'r ddarpariaeth sgiliau rhanbarthol.
- Dylanwadu ar benderfyniadau ar sgiliau, hyfforddiant ac addysg.
- Gweithredu fel corff strategol sy'n cynrychioli buddiannau rhanbarthol.

Ymgysylltu

Rydym wedi sicrhau yr ymgynghorwyd â rhanddeiliaid a phartneriaid wrth ddatblygu'r cynllun. Mae adroddiadau ac arolygon wedi'u cyhoeddi sy'n dal sefyllfa bresennol y sectorau mewn perthynas ag anghenion recriwtio a sgiliau a modelu rhagfynegiadau twf yn y dyfodol.



Grwpiau Clwstwr y Sector Busnes

Y Grwpiau Clwstwr yw ein harbenigwyr yn y sector. Maent yn darparu gwybodaeth am ddiwydiant i ni sy'n benodol i sgiliau, recriwtio gweithlu, a chadw a gwirio synnwyr ein dadansoddiad o'r wybodaeth am y farchnad lafur ym mhob sector blaenoriaeth:

- Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch
- Amaethyddiaeth
- Adeiladu ac Ynni
- Digidol
- Bwyd a Diod
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Sector Cyhoeddus
- Twristiaeth a Hamdden
- Trafnidiaeth a Logisteg

Mae'r clystyrau hyn yn cael eu cefnogi ymhellach gan ddau grŵp:

Grŵp Clwstwr Darparwyr – gan gynnwys Addysg Bellach, Addysg Uwch, darparwyr hyfforddiant, a rhaglenni cyflogadwyedd. Eu pwyslais yw sicrhau bod gofynion sgiliau cyflogwyr a gweithwyr yn cael eu bodloni.

Grŵp Clwstwr Gwarant i Bobl Ifanc – yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws y sector cyhoeddus, ysgolion, Addysg Bellach, sefydliadau ieuentid, a'r Trydydd Sector. Mae'r grŵp hwn yn cefnogi cyfleoedd i bobl ifanc, yn enwedig y rhai hynny sydd bellaf o'r gweithle, sy'n cael eu plethu i broses gwneud penderfyniadau am weithlu busnesau.

Dadansoddiad Cyflogaeth a Sgiliau Sector

Comisiynwyd Lightcast i gefnogi'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wrth ddatblygu'r cynllun diweddar hwn. Cynhaliwyd Dadansoddiad Cyflogaeth a Sgiliau yn y sector, gan dynnu ynghyd setiau data swyddogol a data perchnogol Lightcast ar bostiadau swyddi i broffilio'r sectorau busnes.

Diffinnir pob sector trwy grwpio codau Dosbarthu Diwydiant Safonol perthnasol gyda'i gilydd fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Ar gyfer pob un o'r sectorau, mae'r adroddiad yn edrych ar newidiadau mewn swyddi dros amser gan ddefnyddio model Lightcast. Mae hyn yn darparu rhagamcanion hyd at 2028, gan roi syniad o gyfeiriad twf posibl pob sector yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn adlewyrchu gweithgarwch recriwtio cyfredol ym mhob sector drwy edrych ar nifer y swyddi dros amser, cyflogwyr allweddol sy'n recriwtio ar hyn o bryd, a'r sgiliau sydd eu hangen. Mae'r holl ddadansoddiadau wedi'u cynnal yng Nghanolbarth Cymru - sy'n cynnwys awdurdodau lleol Powys a Cheredigion - ac mae'r canfyddiadau wedi eu meincnodi yn erbyn Cymru a chyfartaledd y DU.



Nifer o swyddi
8,120
(2022)



Cyfran o'r economi
9%
(2022)



Cymru **12%**
DU **10%**

10 Sgîl Uchaf

- Cyfathrebu
- Datrys Problemau
- Gweithrediadau
- Rheolaeth
- Proses Gwella Parhaus
- Gwella Prosesau
- Gwaith Solet (CAD)
- Manylion yn Ganolog
- Cynllunio Gofynion Deunydd
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau)




Cyflog cyfartalog
£35,428
(2023)



Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf

- Offeru
- Peirianeg Dechnegol
- Cynllunio Gofynion Deunydd
- Arweinyddiaeth
- Gwella Prosesau



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020

Nifer o swyddi
14,330
(2022)



Cyfran o'r economi
16%
(2022)



Cymru **4%**
DU **2%**

10 Sgîl Uchaf

- Cyfathrebu
- Rheolaeth
- Gweithrediadau
- Amaethyddiaeth
- Saesneg
- Addysgu
- Parodrwydd i ddysgu
- Ymchwil
- Gwaith warws
- Cyfathrebu Rhyngpersonol




Cyflog cyfartalog
£23,177
(2023)



Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf

- Gweithrediadau
- Addysgu
- Ymchwil
- Peirianwaith
- Cynllunio



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020

Cyfradd twf
+5%
(2022-2028)



Cymru **+3%**
DU **+4%**

Prif flaenoriaethau

- 1 Canllawiau gyrfaoedd.
- 2 Prentisiaethau a phrentisiaethau gradd.
- 3 Darpariaeth hyfforddiant = twf mewn dyheadau

Cyfradd twf
-4%
(2022-2028)



Cymru **-2%**
DU **+2%**

Prif flaenoriaethau

- 1 Mapio sgiliau technegol, cynllunio iechyd a lles anifeiliaid
- 2 Sgiliau Rheoli Tir Cynaliadwy
- 3 Cefnogi pobl ifanc a newidwyr gyrfaoedd i gael mynediad at wybodaeth yrfaol

Nifer o swyddi
4,350
(2022)



Cyfran o'r economi
5%
(2022)

Cymru **4%**
DU **5%**



10 Sgîl Uchaf

- Cerdyn CSCS
- Peintio
- Gwaith coed
- Adeiladu
- Cyfathrebu
- Saesneg
- Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Gwifro trydanol
- Trwydded Gyrrwr Dilys
- Addysgu



Cyflog cyfartalog
£33,337
(2023)




Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf

- Parodrwydd i ddysgu
- Gwifro Trydanol
- Rheolaeth
- Systemau Trydanol
- Saesneg



Adeiladu



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020

Prif flaenoriaethau

1 Prentisiaethau a phrentisiaeth a rennir

2 Tirwedd addysgol ymatebol

3 Datblygiadau technolegol

4 Menywod mewn Adeiladu

Nifer o swyddi
1,040
(2022)



Cyfran o'r economi
1%
(2022)

Cymru **2%**
DU **4%**



10 Sgîl Uchaf

- Cyfathrebu
- Ymchwil i'r Farchnad
- Rheolaeth
- C# (Iaith Rhaglennu)
- Arolygon Ar-lein (Dulliau Gwerthuso)
- Arolygon
- Peirianeg Meddalwedd
- Marchnata
- C++ (Iaith Rhaglennu)
- Datblygu Meddalwedd



Cyflog cyfartalog
£36,205
(2023)




Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf

- Ymchwil i'r Farchnad
- Rhwydweithiau Gwrthdroi Cynhyrchiol
- Systemau Gweithredu
- Cadarnwedd
- Ymchwil



Digidol



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020

Prif flaenoriaethau

1 Talent mewn ardaloedd gwledig

2 Hyfforddiant cyfredol a ysgogir gan y farchnad

Cyfradd twf
+4%
(2022-2028)

Cymru **+3%**
DU **+4%**



Nifer o swyddi
1,411
(2022)



Cyfran o'r economi
1%
(2022)



Cymru **1%**
DU **2%**

Cyflog cyfartalog
£31,962
(2023)

Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf



- Systemau trydanol
- Saesneg
- Gwerthiant
- Gwifro trydanol
- Diogelwch Nwy Domestig Craidd (CCN1)



Cyfradd twf
+1.7%
(2022-2028)

Cymru **+0.3%**
DU **+1.8%**

Prif flaenoriaethau


- 1 Cynyddu'r ddarpariaeth hyfforddi = Galw yn y dyfodol
- 2 Pontio i gyfleoedd ariannu Sero Net
- 3 Twf 10 mlynedd mewn galwedigaethau Sero Net penodol

10 Sgïl Uchaf

- Rheolaeth
- Saesneg
- Cyfathrebu
- Peirianeg Cynnal a Chadw
- Mathemateg
- Peirianeg Drydanol
- Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Rheolaeth Prosiect
- Gweithrediadau
- Gwifro trydanol



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020



Nifer o swyddi
12,400
(2022)



Cyfran o'r economi
14%
(2022)



Cymru **13%**
DU **12%**

Cyflog cyfartalog
£17,567
(2023)

Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf



- Diogelwch Bwyd a Glanweithdra
- Glendid
- Parodrwydd i Ddysgu
- Paratoi Bwyd
- Llwytho a dadlwytho



Cyfradd twf
+9%
(2022-2028)


Cymru **+5%**
DU **+6%**

10 Sgïl Uchaf

- Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Cyfathrebu
- Diogelwch Bwyd a Glanweithdra
- Gweithio mewn Warws
- Coginio
- Rheolaeth
- Gweithrediad Bwyty
- Paratoi Bwyd
- Parodrwydd i Ddysgu
- Glendid



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020



Bwyd a Diod

Prif flaenoriaethau

- 1 Llwybrau amgen ar gyfer rhannu staff allweddol
- 2 Hyrwyddo mewn ysgolion
- 3 Darparu sgiliau peirianeg rhanbarthol

Nifer o swyddi
10,200
(2022)



Cyfran o'r economi
11%
(2022)

Cymru **15%**
DU **14%**



10 Sgîl Uchaf

- Cyfathrebu
- Nyrsio
- Nyrs Gofrestredig
- Gofal personol
- Addysgu
- Cymraeg
- Rheolaeth
- Saesneg
- Bydwreigiaeth
- Gofal nyrsio



Cyflog cyfartalog
£26,353
(2023)




Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf

- Archwilio
- Gofal nyrsio
- Proffesiynoldeb
- Gwaith tîm
- Hunan-gymhelliant



Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020

Prif flaenoriaethau

- 1 Grŵp sgiliau traws-sector
- 2 Hyrwyddo cyfleoedd = llif o staff
- 3 Ffyrdd anhraddodiadol o uwchsgilio'r gweithlu

Nifer o swyddi
22,600
(2022)



Cyfran o'r economi
25%
(2022)

Cymru **31%**
DU **26%**



10 Sgîl Uchaf

- Cyfathrebu
- Addysgu
- Nyrsio
- Saesneg
- Gofal personol
- Nyrs Gofrestredig
- Rheolaeth
- Cymraeg
- Bydwreigiaeth
- Gwaith tîm



Cyflog cyfartalog
£29,685
(2023)




Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf

- Gofal nyrsio
- Hunan-gymhelliant
- Proffesiynoldeb
- Cyfathrebu Rhyngpersonol
- Swyddogaethau gweinyddol



Sector Cyhoeddus



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020

Prif flaenoriaethau

- 1 Offeryn gwybodaeth gyrfaedd rhyngweithiol = llwybrau gyrfa
- 2 Un platfform cyfunol Canolbarth Cymru ar gyfer cyfleoedd gyrfa a chyflogaeth

Nifer o swyddi
1,590
(2022)



Cyfran o'r economi
2%
(2022)



Cymru **3%**
DU **4%**

10 Sgîl Uchaf



- Cyfathrebu
- Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Gweithio mewn Warws
- Canolbwyntio ar Fanylion
- Llwytho a dadlwytho
- Cynnal a chadw cerbydau
- Rheolaeth
- Sgiliau sefydliadol
- Lori fforch godi
- Gweithrediadau

Cyflog cyfartalog
£31,882
(2023)

Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf

- Cynnal a chadw cerbydau
- Hunan-gymhelliant
- Gweithrediadau
- Glendid
- Codi a Chario



Trafnidiaeth a Logisteg




Prif flaenoriaethau

- 1 Hyrwyddo cyfleoedd sector
- 2 Blaenoriaeth i rolau gyrwyr a gweithredwyr warws
- 3 Mynediad i gyfleoedd hyfforddi

Cyfradd twf
-2%
(2022-2028)

Cymru **+5%**
DU **+8%**



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020

Nifer o swyddi
10,670
(2022)



Cyfran o'r economi
12%
(2022)



Cymru **10%**
DU **10%**

10 Sgîl Uchaf



- Cyfathrebu
- Gwasanaeth cwsmeriaid
- Diogelwch bwyd a glanweithdra
- Coginio
- Brwdfrydedd
- Gweithrediad bwyty
- Glendid
- Hylendid
- Rheolaeth
- Glanhau

Cyflog cyfartalog
£15,668
(2023)

Sgiliau sy'n tyfu cyflymaf

- Parodrwydd i ddysgu
- Diogelwch bwyd a glanweithdra
- Brwdfrydedd
- Cyfathrebu
- Hylendid




Twristiaeth a Hamdden



Prif flaenoriaethau

- 1 Hyrwyddo arweinyddiaeth a sgiliau rheolaeth
- 2 Blaenoriaethu meysydd craidd sgiliau cyfathrebu, agweddau ac ymddygiadau, a'r defnydd o dechnolegy



Dadansoddiad Sector Diwydiant 2020

Cyfradd twf
0%
(2022-2028)

Cymru **+2%**
DU **+6%**



Canfyddiadau Allweddol

- Ers 2022 bu cynnydd o 2% yn y twf a ragwelir ar draws pob sector blaenoriaeth.
- Mae recriwtio gweithwyr ag agweddau ac ymddygiadau da yn heriol.
- Byddai busnesau'n hoffi ymgysylltu'n gryfach ag ysgolion a darparwyr hyfforddiant i arddangos cyfleoedd gyrfa.
- Mae dod o hyd i'r cyrsiau sgiliau cywir yn y rhanbarth yn anodd.
- Mae busnesau yn canfod ymgysylltiad â chynlluniau prentisiaeth yn ddwys o ran adnoddau.
- Rhagwelir y bydd swyddi ôl-osod, plymio arbenigol a pheirianeg drydanol yn tyfu.
- Mae rhai sectorau'n tynnu sylw at gydbwysedd rhywedd anghymesur.
- Mae sgiliau sy'n gysylltiedig â Sero Net ac Ynni yn ofyniad sy'n dod i'r amlwg ar gyfer sgiliau.
- Mae poblogaeth weithiol y rhanbarth sydd ar gael yn dilyn y cyfartaledd cenedlaethol o tua 2%.
- Mae mudo net gweithwyr yn her i gyflogwyr.

Sectorau sydd â'r twf mwyaf a ragwelir

- **Bwyd a Diod** 9%
- **Adeiladu** 6%
- **Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch** 6%
- **Digidol** 4%



Y sgiliau y gofynnir amdanynt fwyaf

- **Digidol**
- **Cyfathrebu**
- **Gweithrediadau**
- **Rheolaeth**
- **Sero Net/Ynni**



Blaenoriaethau 12 mis PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL

- **Gwybodaeth gyrfaoedd, cyngor ac arweiniad**
- **Profiad gwaith**
- **Arweinyddiaeth a Rheolaeth**
- **Mynd i'r afael â'r bwlch rhwng y rhywiau mewn sectorau penodol**
- **Sero Net**
- **Darpariaeth hyfforddiant addas i'r diben sydd hefyd yn mynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiadau yn y gweithle**
- **Gwella mynediad i brentisiaethau a phrentisiaethau gradd.**



Blaenoriaethau 12 mis Grwpiau Clwstwr

Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch

- Ymgysylltu â darparwyr addysg i **wella ymwybyddiaeth o'r sector** a chefnogi **arweiniad gyrfaoedd**.
- Codi proffil **prentisiaethau a phrentisiaethau gradd**.
- Sicrhau bod **darpariaeth hyfforddiant** yn cwrdd â'r **dyheadau** twf.

Amaethyddiaeth

- Mapio darpariaeth **sgiliau technegol, cynllunio iechyd a lles** anifeiliaid a ddarperir yn y rhanbarth.
- Deall a chael mynediad at ddarparu sgiliau **Rheoli Tir Cynaliadwy**.
- Cefnogi **pobl ifanc a newidwyr gyrfaoedd** i gael mynediad at **wybodaeth yrfaol** ar draws y sector amgylcheddol a sector diwydiannau'r tir.
- Canolbwyntio ar **sgiliau TGCh, rheoli busnes a rheoli ymddygiad / newid**.

Adeiladu

- Hyrwyddo'r sector adeiladu – cynllunio llwybrau ar gyfer gweithwyr medrus ac arddangos **cyfleoedd prentisiaeth a rhannu prentisiaethau**.
- Cyfrannu at **dirwedd addysgol ymatebol** i anghenion y sector.
- Nodi **datblygiadau technolegol** a defnyddio hyn fel offeryn i ddenu talent newydd gyda phwyslais ar **fenywod ym maes adeiladu**.

Digidol

- Archwilio llwybrau newydd i ddenu **talent i ardaloedd gwledig**.
- Sicrhau mynediad i'r **cyrsiau hyfforddi** diweddaraf sy'n **cael eu hysgogi gan y farchnad**.

Ynni

- **Cynyddu'r ddarpariaeth hyfforddi** o fewn y rhanbarth i ateb **y galw yn y dyfodol**.
- Codi pwysigrwydd y **newid i Sero Net** a chefnogi cyfleoedd ariannu.
- Mapio **twf 10 mlynedd** gyfredol a ragwelir mewn galwedigaethau Sero Net penodol.



Bwyd a Diod



- Archwilio **llwybrau amgen** ar gyfer rhannu staff allweddol.
- Adnabod ffyrdd o **hyrwyddo'r** sector §Bwyd a Diod yn gadarnhaol i **ysgolion**.
- Amlygu'r angen am hyfforddiant **sgiliau peirianeg rhanbarthol** gyda darparwyr lleol.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol



- Creu **grŵp sgiliau traws-sector** fapio cyfleoedd hyfforddi.
- Datblygu **llif o staff** drwy hyrwyddo cyfleoedd yn y sector.
- Archwilio **llwybrau anhraddodiadol** ar gyfer rhaglenni cyflogaeth a sgiliau i **uwchsgilio** y gweithlu.

Sector Cyhoeddus



- Datblygu adnodd gwybodaeth gyrfaoedd rhyngweithiol sy'n tynnu sylw **at lwybrau gyrfa'r sector**.
- Archwilio gweithrediad un platfform cyfunol Canolbarth Cymru gyda neges farchnata syml a chydlynol i hyrwyddo **cyfleoedd gyrfa** a **chyflogaeth**.

Trafnidiaeth a Logisteg



- Hyrwyddo'r sector a'r **cyfleoedd** sydd ynddo.
- Datblygu gweithlu sy'n gallu cyflawni rolau blaenoriaeth gofynnol **gyrwyr a gweithredwyr warws**.
- Sicrhau bod gan fusnesau a gweithwyr **fynediad at gyfleoedd hyfforddi**.

Twristiaeth a Hamdden



- Hyrwyddo cyfleoedd gyda phwyslais arbennig ar hyfforddiant **arweinyddiaeth a sgiliau Rheolaeth**.
- Gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant i ganolbwyntio ar feysydd craidd blaenoriaeth sy'n brin mewn newydd-ddyfodiaid i'r sector – **Sgiliau cyfathrebu, agweddau ac ymddygiadau, a'r defnydd o dechnoleg**.